

Canllaw i athrawon

Mae tua **24 miliwn** o blant ag anableddau yn methu â mynd i'r ysgol.

Bu i arweinwyr byd wneud addewid y byddai pob plentyn yn derbyn addysg erbyn 2015 ond mae 57 miliwn o blant yn dal i fethu â mynd i'r ysgol. Ac mae gan un ym mhob tri ohonynt anabledd.

Cymerwch ran yn ein hymgyrch fyd-eang yn 2014 a'n helpu i sicrhau bod POB plentyn yn cael mynd i'r ysgol.

Dyma'r hyn rydym angen i chi wneud:

- Dilynwch storïau y plant nad ydynt yn cael mynd i'r ysgol
- Crëwch ffrindiau papur sy'n cynnwys neges arbennig
- Cysylltwch y ffrindiau papur at ei gilydd i wneud cadwyn
- Cynhaliwch ddigwyddiadau a gweithgareddau yn yr ysgol
- Cofnodwch yr hyn mae eich ysgol yn gwneud gan ddefnyddio ein cyfansymiwr ar-lein
- Anfonwch eich ffrindiau papur i'ch Aelod Seneddol erbyn diwedd tymor yr haf er mwyn iddynt allu anfon y neges ymlaen at arweinwyr byd

www.sendmyfriend.org



Cam 1: Edrych ar y materion dan sylw

Gwylwch y DVD sy'n cyflwyno'r materion dan sylw a rhowch bosteri'r storïau ar y wal.

Archwiliwch i'r materion hyn mewn mwy o fanylder gan ddefnyddio ein hadnoddau ar-lein.

Porwch drwy'r adnoddau cynradd ac eilaidd, gan gynnwys:

- Cyflwyniadau PowerPoint
- Storïau bywyd go iawn
- Taflenni ffeithiau
- Ffilmiau byr
- Yn newydd ar gyfer 2014 – deunydd DPP

www.sendmyfriend.org/resources

Cam 2: Creu cadwyni ffrindiau papur

Defnyddiwch y templedi i greu ffrindiau papur – gallwch eu gwneud yn fwy o faint er mwyn cael lle i fwy o negeseuon.

Addurnwch y ffrindiau papur drwy gynnwys negeseuon ynglŷn â gwerth addysg a cysylltwch nhw mewn cadwyn.

Defnyddiwch liwiau, patrymau, gliter, sticeri a ffabrig fel bod y ffrindiau papur yn dal sylw.

Cymerwch olwg ar ein horiel luniau sy'n dangos y gwaith gwych y mae ysgolion wedi ei wneud:

www.sendmyfriend.org/action-ideas



Cam 3: Siaradwch – mynnwch lais!

Lawrlwythwch logos a delweddau'r ffrindiau papur er mwyn creu eich posteri a'ch cyflwyniadau eich hunain.

Cynhaliwch ddigwyddiadau arbennig i ddisgyblion, athrawon, rhieni a'ch Aelod Seneddol.

Rhowch gyhoeddusrwydd i'ch gwaith gan ddefnyddio pecyn y wasg.

Bydd popeth sydd ei angen arnoch fan hyn: www.sendmyfriend.org/speak-up

Cam 4: Gwnewch i'ch gwaith gyfri

Ar ddiwedd tymor yr haf, anfonwch eich ffrindiau papur ynghyd â llythyr eglurhaol i'ch Aelod Seneddol (gan ddefnyddio'r cyfeiriad sydd wedi i roi yn eich pecyn).

Gall eich Aelod Seneddol wedyn anfon eich negeseuon ymlaen at y Prif Weinidog a all ddylanwadu ar arweinwyr gwledydd cyfoethocaf y byd.

Peidiwch ag anghofio dweud wrthym am yr hyn a wnaethoch! Cofnodwch faint o bobl a gymerodd ran yn y digwyddiadau a'r gweithgareddau yn eich ysgol gan ddefnyddio ein Cyfansymiwr ar-lein. Gallwch ychwanegu lluniau i'r oriel a byddwch yn derbyn tystysgrif i ddiolch i chi am gymryd rhan.

Rhowch gyfanswm y nifer a gymerodd ran yn ein Cyfansymiwr, fan hyn:

www.sendmyfriend.org/totaliser

